# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 30 Mawrth 2020 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Mawrth 2020 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 6 Ebrill 2020 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC** Cynllun Busnes Cwmni Byw'n Iach Cyf 2020-21

Cymeradwyo Cynllun Busnes cwmni Byw'n Iach cyf. 2020-21 yn unol â'r cytundeb gyda Chyngor Gwynedd sy'n golygu y byddai ffioedd yn codi ar gyfartaledd o 3.55%

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sioned Eirian Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 30ain o Fawrth, 2020 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Cynllun Busnes cwmni Byw'n Iach cyf. 2020-21

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo Cynllun Busnes cwmni Byw'n Iach cyf. 2020-21 yn unol â'r cytundeb gyda Chyngor Gwynedd sy'n golygu y byddai ffioedd yn codi ar gyfartaledd o 3.55%

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Ar y 1af o Ebrill 2019 trosglwyddwyd cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau hamdden o fewn 12 Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd i gwmni Byw'n Iach cyf. Cwmni cyfyngedig trwy warant ydi'r cwmni a Chyngor Gwynedd sydd yn berchen ar y cwmni ac yn sicrhau ei fod bob amser yn gweithredu dros les trigolion y sir.

Bwriad cwmni Byw'n Iach cyf. yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf oedd i ymsefydlu, datblygu trefniadau gweithredol newydd, ymgyfarwyddo gyda threfniadau llywodraethu newydd ac ymchwilio i gyfleoedd newydd ar gyfer adolygu a datblygu'r busnes a'r gwasanaethau i'r dyfodol.

Yn eu blwyddyn cyntaf mae'r Cyngor wedi bod yn monitro gweithgaredd cwmni Byw'n Iach cyf. ac ar sail y dystiolaeth gellir datgan fod  y trosglwyddiad wedi bod yn un llwyddiannus gyda'r perfformiad yn dda a dim pryderon sylweddol wedi codi.

Un o ofynion cytundeb Cyngor Gwynedd ydi fod cwmni Byw'n Iach cyf. yn cynllunio atebion arloesol i gyflawni ethos y Cyngor o welliant parhaus ac effeithlonrwydd ariannol drwy gydol cyfnod y contract. Yn unol â chanllawiau'r contract mae Byw'n Iach cyf. eisoes wedi creu Cynllun Busnes 2019-2021 sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor ond bellach wedi ei adolygu ar gyfer y flwyddyn 2020-21 er mwyn arddangos sut y mae'n bwriadu cwrdd â'u gofynion. Oherwydd yr adolygiad a'r ffaith bod y cwmni wedi nodi o fewn y cynllun eu bod yn mynd i godi ffioedd ac mae angen cymeradwyaeth gan y Cyngor.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Argymhellir cymeradwyo Cynllun Busnes Byw'n Iach cyf. gan fod y Cwmni wedi cwrdd â Gofynion Cyffredinol y contract fel y tystiolaethir isod:

| *1* | *Rhaglen amrywiol o weithgaredd hamdden, chwaraeon a chymunedol sy'n hygyrch i bawb gan gynnwys y grwpiau difreintiedig a bregus* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-2020 mae Byw'n iach cyf. wedi darparu amryw o weithgareddau hamdden a chwaraeon fel y gwelir yn y linc<br>https://www.bywniach.cymru/gweithgareddau/<br>Mae'r gweithgareddau yma hefyd yn cynnwys sesiynau nofio am ddim.<br>Mae'r Cwmni wedi nodi yn eu cynllun busnes eu bod am sefydlu fforymau rhanddeiliaid newydd i adeiladu perthynas cryfach rhwng y cymunedau lleol. Maent eisoes wedi cychwyn ar gynlluniau cymunedol megis prosiect garddio Dwyfor sydd wedi ennill gwobr y Faner Werdd yn ddiweddar<br>https://www.bywniach.cymru/blog/prosiect-garddio-dwyfor-yn-cael-gwobr-rhyngwladol-y-faner-werdd/<br>Gweler hefyd eu gwaith cydweithio i ddatblygu'r ardd yn Glaslyn<br>https://www.bywniach.cymru/blog/bwyd-bendigedig-port-yn-cydweithio-i-ddatblygu-gardd-bywn-iach-glaslyn/<br>Er mwyn sicrhau bod y canolfannau yn hygyrch i'r rhai difreintiedig a bregus mae'r cwmni gyda consesiwn ar gyfer unigolion anabl, 16-24 oed a dros 60 oed. |

| *2* | *Darparu profiad cwsmer a gofal cwsmer o ansawdd uchel yn gyson.* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Yn y 6 mis cyntaf o 2019-2020 mi roedd boddhad cwsmer Byw'n Iach cyf. yn 87.34% sydd mymryn yn is na'r cyfartaledd lefel boddhad o 88.68% y dair blynedd blaenorol. Er bod y ffigwr yma yn is nid yw'n sylweddol is syn profi bod y trosglwyddiad wedi bod yn un di-dor. Mae'r cwmni hefyd wedi nodi bod nifer o adborth wedi gostwng yn |

| | |
|---|---|
| | ddiweddar a maent yn ymdrechu i gasglu fwy o adborth drwy ffurfiau digidol megis tabled yn y ganolfan neu e-bost. Un ffigwr siomedig sydd i'w weld ydi bod lefel boddhad rhieni gyda gwersi nofio plant sy'n rhagorol neu'n dda iawn yn 66.86%. Mae'r cwmni wedi darganfod fod anfodlonrwydd gan rhai rhieni o ran adborth i'r gwersi. Mae'r cwmni wedi gofyn i gwmni Pulse ddatblygu adnodd Cymraeg er mwyn rhannu'r Portal i'r rhieni fydd yn rhoi gwell adborth. Y gobaith yw bydd yr boddhad rhieni yn codi unwaith bydd y Portal yn ei le. |

| *3* | *Sicrhau cydweithrediad effeithiol rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws sector chwaraeon a gweithgaredd corfforol y Sir* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Dros y flwyddyn diwethaf mae Byw'n iach cyf. wedi bod yn cyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu fframwaith a gweledigaeth strategol ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru. Partneriaeth strategol hirdymor yw Chwaraeon Gogledd Cymru. Disgwylir i'r bartneriaeth ddarparu arweinyddiaeth a comisiynu rhaglenni ansawdd uchel.<br><br>Mae'r cwmni gyda bwriad yn y dyfodol o gyflwyno rôl newydd o fewn y tîm, sef Rheolwr Partneriaethau. Fe fydd y rôl yma yn gofyn i'r rheolwr sicrhau bod mwy o waith cydweithredol rhwng rhanddeiliaid a phartneriaethau yn cael ei gwblhau. Yn dilyn apwyntiad y rheolwr disgwylir bydd nifer fwy o enghreifftiau o gydweithrediad i adrodd nôl arno. |

| *4* | *Cefnogi datblygiad a hyrwyddo cyfranogiad trefniadaeth gymunedol, clybiau / grwpiau ac Ysgolion yn y gweithgareddau* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Mae Byw'n Iach cyf. yn parhau i ddarparu'r amser yn y pwll ar ran y Cyngor i Swim Gwynedd fel rhan o'r cytundeb Clwb Perfformiad. Fel rhan o'r cytundeb dros y flwyddyn diwethaf mae Byw'n Iach cyf. wedi bod yn rhoid cynnig cyntaf o'r adnoddau o'r canolfannau i'r ysgolion. Maent wedi ymestyn y cynllun corfforaethol i bartneriaid a wedi ail ymweld a'r penderfyniad i gau'r cynllun Cerdyn Aur ar gyfer athletwyr ifanc dawnus gan ei ail-gyflwyno.<br><br>Fel y nodir uchod hefyd maent eisoes wedi cychwyn ar gynlluniau cymunedol fel prosiectau garddio Dwyfor a Glaslyn a mae'r bwriad i greu swydd Rheolwr Partneriaethau fydd yn golygu datblygu fwy o gydweithio gyda chlybiau, grwpiau cymunedol a ysgolion.<br><br>Dros y flwyddyn diwethaf mae rhai enghreifftiau o gydweithio da rhwng y cwmni a chlybiau i'w weld megis addasiadau i canolfan Arfon i fedru darparu pêl rwyd yn y neuadd tenis yn dilyn sylwadau gan clybiau lleol a Pêl-Rwyd Cymru bod diffyg cyrtiau ar gael. Yn o gystal a'r Pêl-Rwyd fe ddaru y cwmni gyflwyno offer newydd yn canolfan Bangor ar gyfer datblygu plymio yn dilyn cais gan Nofio Cymru gan arwain at gala plymio yn cael eu cynnal yno. |

| 5 | *Adolygu a gwella ystod a chwmpas y cynnig yn barhaus, gan fod yn gyson ymwybodol o anghenion cwsmeriaid, cynyddu nifer yr ymwelwyr a boddhad cwsmeriaid, yn enwedig ymhlith y rhai anoddaf eu cyrraedd.* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Mae’r cwmni wedi nodi yn eu cynllun busnes y gwaith uwchraddio isadeiledd fydd yn digwydd yn 2020-21 er mwyn gwella y cynnig sydd ar gael gan gynyddu’r nifer o ymwelwr a boddhad cwsmer. Mae prosiectau’n cynnwys:<br>• Adnewyddu caeau synthetig Plas Ffrancon, Silyn a Bro Dysynni.<br>• Uwchraddio gofod newid i deuluoedd a phobl anabl yn Dwyfor a Glaslyn.<br>• Gwelliannau i gyfleusterau ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd Plas Ffrancon (mewn partneriaeth a Dechrau’n Deg)<br>• Offer newydd i gefnogi nofio e.e. offer ar gyfer pobl anabl<br>• Buddsoddiad mewn offer ffitrwydd i wella’r cynnig ar gyfer defnyddwyr yn gyffredinol yn ogystal ag offer ar gyfer pobl hŷn a chwsmeriaid rhaglen NERS.<br>• Addasiad i Byw’n Iach Arfon i fedru darparu pêl-rwyd yn y neuadd Tenis. |

| 6 | *Cynnal lefelau uchel o lendid ledled yr eiddo.* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Mae gan Byw’n Iach cyf. drefn monitro mewnol eu hunain (IMS) sy’n disgrifio sut fydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Mae Byw’n Iach cyf. hefyd yn defnyddio system Quest sy’n asesu ansawdd gwasanaethau hamdden ym Mhrydain. Mi fydd Quest yn flynyddol yn cwblhau asesiad ansawdd o un or Ganolfannau Hamdden. Yn ogystal a’r uchod mae trefniadau archwiliad mewnol yn ei le i sicrhau bod ansawdd y canolfannau yn uchel. Mae boddhad cwsmer o 87.34%, sydd yn dystiolaeth hefyd bod lefelau uchel o lendid ar y safleoedd. |

| 7 | *Marchnata a hyrwyddo'r Gwasanaeth, yr Adeilad a'r gweithgareddau mewn modd hygyrch, deniadol a phroffesiynol sydd hefyd yn targedu'r rhai lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad a nifer y defnyddwyr* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Mae Byw’n Iach cyf. wedi adolygu’r brand gan chyflwyno newidiadau gweledol i’r canolfannau hamdden. Maent wedi creu gwefan newydd https://www.bywniach.cymru/ yn o gystal yn ymdrechu i farchnata’r gwasanaeth ar gyfryngau cymdeithasol amrywiol drwy eu swyddog marchnata a chyfathrebu:<br>https://twitter.com/bywniachcymru |

| | |
|---|---|
| | https://www.instagram.com/bywniachcymru/<br>https://www.facebook.com/bywniachgwynedd<br>https://www.youtube.com/channel/UCBxDNXE3P8om1KZF8HFWo_w<br>https://www.bywniach.cymru/en/blog/<br>Yn o gystal a'r uchod mae'r cwmni bellach wedi apwyntio prentis marchnata er mwyn ehangu ar y gwaith marchnata sydd eisoes yn cael ei wneud. |

| | |
|---|---|
| *8* | *Annog mwy o drigolion yng Ngwynedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, yn enwedig y preswylwyr hynny sy'n profi mwy o angen iechyd.* |
| Tystiolaeth | Mae Byw'n Iach yn ymdrechu'n galed i annog mwy o drigolion Gwynedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon drwy yr holl waith marchnata sy'n cael ei wneud ganddynt. Mae'r cwmni wedi bod yn cydlynu'r Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff (NERS). Nawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd o les i'r rhai dros 16 oed sy'n dioddef â chlefyd parhaol neu a allai ddioddef â chlefyd o'r fath. Maent hefyd wedi bod yn cydlynu'r cynllun Nofio am Ddim gyda'r bwriad o dargedu grwpiau penodol e.e. grwpiau hŷn, dementia etc. Er mwyn sicrhau bod canolfannau yn hygyrch ar gyfer pob unigolyn mae'r cwmni wedi uwchraddio gofod newid i deuluoedd a phobl anabl yn Dwyfor a Glaslyn. Er mwyn gwella eu safonau ar gyfer yr unigolion syn profi fwy o angen mae'r cwmni gyda bwriad o gyflwyno cais i Insport am wobr efydd a fydd yn profi bod y staff a canolfannau yn gynhwysol i pobl o bob allu. |

| | |
|---|---|
| *9* | *Yn ddarostyngedig i delerau'r prydlesau, cynnal ansawdd yr eiddo.* |
| Tystiolaeth | Mae Byw'n Iach cyf wedi cyflwyno strwythur rheoli newydd yn y flwyddyn 2019-2020. Mae'r newidiadau wedi creu strwythur rheoli cryfach na'r un blaenorol drwy sicrhau bod y tîm gweithredol yn arwain ar rhai meysydd penodol sy'n creu cysondeb ar draws yr 12 canolfan. Mae un rheolwr ardal gyda chyfrifoldeb am Eiddo. Mae hyn yn sicrhau bod y cwmni yn ymdrechu i gynnal y canolfannau. Dros y flwyddyn diwethaf mae'r cwmni wedi dod ar draws problemau/diffygion a mae rhain wedi cael eu hamlygu i'r adran Eiddo'r cyngor yn brydlon pob amser. |

| | |
|---|---|
| *10* | *Gweithio i wella effeithlonrwydd darparu gwasanaeth yn barhaus, lleihau cost y gwasanaeth i'r Cyngor a'i anelu at leihau'r swm contract cyfredol.* |
| Tystiolaeth | Mae'r cwmni wedi adnabod yn eu cynllun busnes y bydd rhaid cymryd i ystyriaeth ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ac ymlaen fod y |

| | |
|---|---|
| | Cyngor eisiau lleihau swm y cytundeb hyd at £155,000. Mae'r cwmni wedi nodi eu bod am ymchwilio a chyflwyno opsiynau ar gyfer ymateb i'r lleihad mewn incwm. Yn y cyfamser mae'r cwmni wedi datblygu Uned Hyfforddi Masnachol sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi gan gynnwys Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf i sefydliadau allanol. Gall ehangu ar hyn gan greu mwy o incwm.<br><br>https://www.bywniach.cymru/hyfforddiant/<br><br>Mae'r cwmni bellach wedi cyflwyno drefn newydd gyda yr adran Eiddo'r Cyngor ble fydd cyfarfodydd chwarterol yn cael eu trefnu i fonitro perfformiad ynni, gyda'r bwriad o leihau costau rhedeg y canolfannau.<br><br>Fel rhan o'u dadansoddiad SWOT mae'r cwmni hefyd wedi adnabod y posibilrwydd o cydleoli mwy o wasanaethau yn y dyfodol i leihau'r costau adeiladau.<br><br>Fel datrysiadau o'r risg o leihad i'r cytundeb mae'r cwmni yn o gystal wedi adnabod y datrysiadau canlynol:<br><br>• *Cynyddu Ffioedd*<br>• *Leihau Costau(e.e. adnabod a lleihau oriau agor anghynhyrchiol ayb)*<br>• *Cynyddu niferoedd cwsmeriaid ac felly cynyddu y targed incwm.* |

| | |
|---|---|
| *11* | *Chwilio am gyfleoedd i gael cyllid grant i gefnogi datblygiad y busnes a gwella'r gwasanaethau yn barhaus.* |
| Tystiolaeth | Mae'r cwmni hefyd wedi nodi yn eu dadansoddiad SWOT bod cyfleoedd i gael grantiau ychwanegol. Mae'r cwmni wedi dechrau edrych ar grantiau posib ar gyfer 2021-22 ymlaen.<br><br>Fel rhan o'r rôl newydd Rheolwr Partneriaethau sydd dan sylw fe fydd y rheolwr yma gyda cyfrifoldeb o ddod o hyd ac ymgeisio am grantiau. |

| | |
|---|---|
| *12* | *Darparu staff cymwysedig addasrwydd sy'n ddigonol i gydymffurfio â phob agwedd o'r contract bob amser* |
| Tystiolaeth | Ar hyn o bryd mae'r cwmni yn dilyn polisi Recriwtio a Phenodi y Cyngor nes fydd polisi cyfatebol wedi mabwysiadu gan y cwmni.<br><br>https://gwynedd.insight4grc.com/UserHome/Policies/PolicyDisplay.aspx?&id=215&l=2<br><br>Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn gymwysedig ag yn addas ar gyfer y rôl gan eu bod wedi ymrwymo i benodi'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd gofynion manylion person yn unig. |

| | |
|---|---|
| | Tra yn eu swyddi mae'r cwmni yn defnyddio system Modiwl Datblygu Staff (MoDS) ar lein y cyngor er mwyn trefnu a chadw cofnod o'r holl fodiwlau/hyfforddiant mae'r staff wedi ei fynychu.<br><br>Mae system IMS, Quest a archwiliad mewnol yn sicrhau bod y cwmni a'r cyngor yn monitro bod cymwysterau staff dal yn gyfredol. |

Disgwylir yn ôl y contract hefyd i Byw'n Iach cyf. ddangos sut mae'n cyfrannu at y Weledigaeth Strategol y Cyngor o fewn y Cynllun Gwynedd 2018-2023. Mae'r tystiolaeth isod yn dangos bod Byw'n Iach cyf. wedi mynd ati i gyfrannu at y weledigaeth:

| *1* | *'Cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu a byw bywydau llawn yn eu cymuned, mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi. '* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Mae Byw'n Iach yn rhedeg 12 Canolfan Hamdden ar draws Gwynedd, mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol mewn lleoliadau diogel. Maent yn sicrhau bod yr opsiwn i holl drigolion Gwynedd manteisio ar eu gwasanaeth drwy gynnig sesiynau Nofio am Ddim a consesiwn i wahanol gwsmeriaid. Mae Byw Bywyd Cyf. yn cynorthwyo Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod unigolion a anghenion addysgol, oedolion hŷn a dementia yn byw bywydau llawn yn eu cymunedau megis y Caffi yn Arfon sy'n ganolfan dydd. |

| *2* | *Rhoi lles dinasyddion Gwynedd ar flaen ei holl weithgareddau* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Mae Byw'n Iach cyf. dros y flwyddyn diwethaf wedi profi eu bod yn rhoi lles dinasyddion Gwynedd ar flaen eu holl weithgareddau. Dros y flwyddyn diwethaf ar blwyddyn i ddod mae Byw'n Iach cyf. fel a nodir yn eu cynllun busnes gyda mesuryddion perfformiad. Mae'r mesuryddion yma yn cael eu defnyddio i sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei gyflawni o fudd dinasyddion Gwynedd a fod y gweithgareddau i'r dyfodol yn cael eu cynllunio yn ôl canlyniadau'r mesuryddion. |

| *3* | *Ymrwymo i'r egwyddorion yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau yng Ngwynedd.* |
|---|---|
| Tystiolaeth | Yn sicr mae Byw'n Iach cyf. yn ymrwymo i'r egwyddorion yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). Maent yn sicrhau bod Cymru'n fwy Cyfartal drwy gynnig Nofio am Ddim, consesiynau a prisiau cystadleuol i gymharu a'r cystadleuaeth. Mae'r cwmni hefyd yn cyfrannu at Gymru Iachach yn gorfforol a meddyliol drwy y amrediad o gyfleoedd sydd ar gael, megis sesiynau llesiant, garddio a NERS. Mae'r cwmni darparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn fynnu. Mae'r cwmni hefyd yn ymdrechu i |

| | |
|---|---|
| | sicrhau bod Cymru lewyrchus a gydnerth gan gynnig swyddi i dros 250 o unigolion ac yn ymdrechu i leihau carbon drwy gydweithio gyda'r adran Eiddo'r Cyngor. |

| | |
|---|---|
| *4* | *Sicrhau bod dinasyddion Gwynedd yn gallu "mwynhau bywydau hapus, iach a diogel."* |
| Tystiolaeth | Mae'r cwmni wedi profi dros y flwyddyn diwethaf eu bod yn ymdrechu i sicrhau bod dinasyddion Gwynedd yn gallu mwynhau bywydau hapus, Iach a diogel drwy darparu nifer eang o weithgareddau. Mae'r boddhad cwsmer o 87.34% yn brawf bod Byw'n Iach yn llwyddo i gyflawni hyn. |

| | |
|---|---|
| *5* | *Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ei ganolfannau hamdden a'i Raglenni Cytûn yw "Cydweithredu â phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ysbrydoli, cefnogi a galluogi trigolion Gwynedd i fod yn egnïol a byw bywydau iach."* |
| Tystiolaeth | Dros y flwyddyn diwethaf mae Byw'n Iach cyf wedi cydweithio a nifer o bartneriaid. Fel y nodi'r uchod mae'r cwmni yn rhanbarthol a chenedlaethol wedi cydweithredu a phartneriaid. megis cydweithio i sefydlu Chwaraeon Gogledd Cymru, cyrff llywodraethol megis Pêl Rwyd a Nofio i well cyfleusterau. Yn lleol wedi cydweithio a chlybiau, canolfannau dydd, Dementia Go a sefydlu clybiau garddio. |

Mae Byw'n Iach cyf. wedi dangos drwy eu Rhaglen Darparu Gwasanaeth o fewn y cynllun busnes eu bod yn cwrdd â'r gofynion cyffredinol yn y contract ac yn cyfrannu at weledigaeth strategol y Cyngor.

Mae'r cwmni wedi ymdrechu i fynd ati i adnabod eu cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau yn o gystal â chwblhau Cofrestr Risg Gorfforaethol sydd dangos eu bod wedi adnabod y camau sydd rhaid rhoi yn eu lle dros y flwyddyn nesaf i sicrhau eu bod yn lleihau eu risgiau, rhoi camau yn eu lle i daclo eu gwendidau a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Bwriad Byw'n Iach cyf. yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf oedd ymsefydlu. Oherwydd hyn mae mesuryddion perfformiad a gytunwyd gyda'r Cyngor yn dal i barhau. Mae'r mesuryddion yn rhai sy'n mesur 'niferoedd' a 'pa mor dda' am y tro. Gobeithio dros y flwyddyn nesaf cawn edrych i ychwanegu at y mesuryddion yma drwy gael mesuryddion sy'n dangos y 'gwahaniaeth' sy'n cael ei wneud.

<u>Cynnydd mewn Ffioedd</u>

Mae’r contract yn gofyn i Byw’n Iach cyf. i sicrhau y bydd yr holl raglenni a chynlluniau aelodaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i ymateb i'r galw sy'n newid ac i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion y Cyngor bod cyfranogiad yn y gwasanaethau ac incwm yn cynyddu.

Mae’r contract hefyd yn nodi gall cynnydd chwyddiant gychwyn o'r Flwyddyn Ariannol 2020/2021 neu unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r Cyngor yn ei ddewis. Yn unol â’r contract mae Byw’n Iach cyf. wedi cymryd y cyfle i godi cyflog. Mae’r ffigwr wedi ei benderfynu drwy roi ystyriaeth i nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys chwyddiant o ran costau byw, perfformiad y cwmni yn ystod 2019/20 a gwybodaeth o ran chwyddiant cyflogau tebygol yn y sector hamdden a’r sector cyhoeddus yn ehangach ac yn lleol.

Yn unol â’r contract mi fydd Byw’n Iach cyf. yn darparu'r cynllun Nofio am Ddim. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 mi roedd Byw’n Iach cyf. yn derbyn £84,500 i ddarparu’r cynllun. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 mae’r gronfa wedi ei haneru i £42,250.

O ystyried y codiad cyflog, lleihad grant a phwysau eraill cyfanswm net i’w ariannu gan y cwmni ydi £134,210 sy’n golygu bod angen codi y ffioedd. Gweler dosraniad isod:

| | |
|---|---|
| Chwyddiant Cyflogau | £88,920 |
| Chwyddiant Arall | £17,890 |
| Incrementau / Trosiant | £6,270 |
| Lleihad Costau Pensiwn Staff | (£52,770) |
| Lleihad Grant | £21,130 |
| Pwysau Eraill | £35,360 |
| Sefydlu Cronfa Datblygiadau | £17,410 |
| **Cyfanswm Net – i’w ariannu gan y Cwmni - cyfwerth a 3.55% ar y ffioedd** | **£134,210** |

Yn unol a’r contract mae Byw’n Iach cyf. wedi dod yn ymwybodol o amrywiad yn y Cynllun Busnes 2019-2021 a felly wedi hysbysu'r Cyngor o’r amrywiad drwy’r Cynllun Busnes 2020-2021. Yn unol a’r gontract os oes amrywiad yn cael ei adnabod mae disgwyliad iddynt hysbysu’r Cyngor os yw’r amrywiad yn ymwneud a gostyngiad mewn incwm neu'n gynnydd mewn gwariant neu'r ddau. Unwaith adnabyddi’r yr amrywiad rhaid yna anfon adolygiad o'r Cynllun Busnes i’r cyngor gyda chynllun adferiad. Yn y sefyllfa yma mae’r cwmni wedi adnabod gostyngiad mewn incwm a cynnydd mewn gwariant ac am adfer y sefyllfa drwy cynyddu incwm. Oherwydd bod Byw’n Iach cyf. wedi dilyn canllawiau’r contract argymhellir fod Cyngor Gwynedd yn cefnogi bwriad y Cwmni i godi eu ffioedd.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid –

Penderfyniad Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2020 oedd derbyn y gyllideb gyda’r ymrwymiadau uchod ac i’w hariannu’n llawn trwy ad-ennill y gost gan y cwsmer. O ganlyniad, bydd cyllideb yr incwm ffioedd gan gwsmeriaid yn cynyddu 3.55%, yn weithredol o 1 Ebrill 2020.

Rwyf yn fodlon fod yr amcangyfrifon o’r costau sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb y Cwmni ar gyfer 2020-21 yn rhesymol ac fod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi gosod cyllideb gytbwys. Rwyf hefyd yn fodlon fod Taflen Ffioedd 2020-21 a gyflwynwyd i’r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ei gyfarfod 15 Ionawr 2020 yn ddigonol i ad-ennill y cynnydd yn y costau o £134,210 yn 2020-21.

Swyddog Monitro –

Mae’r Cynllun Busnes yn ddogfen sydd yn cynrychioli un o sylfeini y trefniadau rhwng Cyngor Gwynedd a Byw’n Iach Cyf. Darperir hawl cytundebol i’r Cyngor ystyried a chymeradwyo’r Cynllun sydd yn cael ei gyflwyno gan Fwrdd y Cwmni. Mae’r argymhelliad yn adlewyrchu y cyd weithrediad yma ac rwy’n fodlon a’i briodoldeb.

Aelod/au Lleol -